**Adroddiad i'r:** Cyngor Sir

**Dyddiad y Cyfarfod:** 18 Hydref 2016

**Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio / Swyddog:** Y Cynghorydd Huw Hilditch Roberts (Cadeirydd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio)/Steve Price (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd)

**Awdur yr Adroddiad:** Rhian Evans (Cydlynydd Archwilio)

**Teitl:** Cryfhau a Gwella Archwilio yn Sir Ddinbych

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cynnydd hyd yma gyda gweithredu'r Cynllun Gweithredu ar Wella Archwilio, a chanfyddiadau allweddol yr ymarfer hunanwerthuso archwilio diweddar.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Diweddaru'r Cyngor ar gynnydd hyd yma gyda gweithredu'r Cynllun Gweithredu ar Wella Archwilio (Atodiad 1), a chanfyddiadau allweddol yr ymarfer hunanwerthuso archwilio diweddar; ac

2.2 i geisio syniadau aelodau ar gyfer cryfhau archwilio yn Sir Ddinbych yn barod ar gyfer tymor newydd y Cyngor ym mis Mai 2017.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn ystyried:

3.1 y cynnydd hyd yma gyda gweithredu'r Cynllun Gwella Archwilio;

3.2 canfyddiadau'r ymarfer hunanwerthuso archwilio, a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael â gwendidau a nodwyd; ac

3.3 awgrymu meysydd i Archwilio yn Sir Ddinbych ganolbwyntio ac adeiladu arnynt er mwyn cryfhau'r swyddogaeth ymhellach yn ystod gweddill tymor y Cyngor ac i symud ymlaen ymhellach yn ystod cyfnod y Cyngor newydd.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Yn dilyn cyhoeddiad ym Mai 2014 o astudiaeth gwella SAC ar archwilio mewn llywodraeth leol yng Nghymru o'r enw *Craffu Da*? *Cwestiwn Da!*[1], cytunwyd ar Gynllun Gweithredu ar Wella Archwilio gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio, gyda'r bwriad o symud ymlaen gydag archwilio yn Sir Ddinbych. Cafodd y meysydd i'w gwella yn y cynllun gweithredu (Atodiad 1) eu nodi yn ystod yr

[1] *Craffu Da? Cwestiwn Da!*: https://www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/craffu-da-cwestiwn-da-astudiaeth-wella-archwilydd-cyffredinol-cymru-craffu-mewn-llywodraeth

adolygiadau cymheiriaid a gynhaliwyd fel rhan o astudiaeth SAC ac yn seiliedig ar gasgliadau'r astudiaeth genedlaethol.

4.2 Roedd argymhelliad 7 o'r adroddiad cenedlaethol yn nodi y dylai pob awdurdod lleol ledled Cymru "ymgymryd â hunanwerthusiad rheolaidd o archwilio gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trosolwg ac archwilio llywodraeth leol effeithiol'..." Er gwybodaeth, mae copi o'r canlyniadau a'r nodweddion ar gyfer archwilio effeithiol wedi eu hatodi yn Atodiad 2. Yn Sir Ddinbych, mabwysiadodd yr SCVCG y nodweddion a sicrhau bod ymarfer hunanwerthuso'n seiliedig ar y canlyniadau a'r nodweddion yn cael ei wneud am yr ail flwyddyn yn olynol yn 2015/16. Amlinellwyd y themâu allweddol o'r ymarfer hwn yn ystod cyflwyno *Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Archwilio 2015/*16 i'r Cyngor ym mis Mai 2016. Mae'r broses hunanwerthuso a'r canfyddiadau sy'n deillio ohoni'n cael eu hamlinellu isod.

<u>Ymarfer Hunanwerthuso Archwilio</u>

4.3 Cafodd cyfanswm o 61 o holiaduron eu rhoi eleni ac fe wnaeth cyfanswm o 30 o aelodau, swyddogion ac aelodau cyfetholedig ddychwelyd yr holiaduron wedi'u llenwi - cyfradd ddychwelyd o 49%. Fe wnaeth y gyfradd ddychwelyd hon ragori'n sylweddol ar gyfradd ymateb y llynedd o 23% (15 o holiaduron a gwblhawyd). O'r holiaduron a gafodd eu llenwi:

- Roedd 15 gan Aelodau Archwilio
- Roedd 4 gan Aelodau'r Cabinet
- Roedd 5 yn dod gan gynghorwyr sir (nad oeddent yn aelodau Archwilio na Chabinet)
- Roedd 2 gan Aelodau Cyfetholedig Archwilio; ac
- Roedd 4 gan aelodau'r Tîm Gweithredol Corfforaethol / Penaethiaid Gwasanaeth

4.4 Gall aelodau etholedig weld dadansoddiad o'r holl ymatebion a dderbyniwyd yn ardal Llyfrgell Modern.gov drwy ddilyn y ddolen isod:
http://mgintranet/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13636&path=13634&LLL=0

Y prif gasgliadau o ddadansoddi'r ymatebion oedd:

- Bod gan Archwilio'n Sir Ddinbych rôl glir a gwerthfawr yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor;
- Bod Archwilio'n gyffredinol yn gweithredu ar sail anwleidyddol ac yn cael ei arwain gan gynghorwyr;
- Mae cael aelodau Cabinet sy'n cyflwyno adroddiadau a chael eu dal i gyfrif gan y Pwyllgor Archwilio ar gyfer eu meysydd cyfrifoldeb yn gweithio'n dda; ac
- Ar y cyfan, mae lefel uchel o gyd-ymddiriedaeth yn bodoli rhwng Archwilio a mynychwyr mewn cyfarfodydd archwilio, boed ydynt yn bobl sy'n mynychu o'r Cyngor neu gynrychiolwyr o sefydliadau partner

4.5 Y prif feysydd a nodwyd ar gyfer gwelliant o dan yr ymarfer hunanwerthuso oedd:

- Darparu digwyddiadau hyfforddi sgiliau / deunydd sy'n fwy penodol i archwilio;
- Yr angen i wella presenoldeb aelodau mewn rhai cyfarfodydd archwilio;
- cyfathrebu â'r cyhoedd a mynd ati i annog preswylwyr i ymgysylltu ag archwilio ar faterion o bryder neu ddiddordeb;

- archwilio'r potensial i weddarlledu rhai cyfarfodydd o’r pwyllgor archwilio gyda'r bwriad o wella ymgysylltu â'r cyhoedd

4.6 Mae meysydd eraill a awgrymwyd ar gyfer gwelliant a gyflwynwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:

- aelodau i ymgymryd ag ymchwil mwy annibynnol, efallai drwy ddefnyddio data sydd ar gael gan y Gwasanaeth Gwella a Moderneiddio Busnes;
- hyfforddiant archwilio penodol i'w gynnig i aelodau'r Cabinet yn ogystal ag aelodau Archwilio (gan gynnwys sgiliau cadeirio, sgiliau i ofyn y cwestiynau ‘cywir’, hyfforddiant y cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol, a sesiynau hyfforddi 1:1 os oes angen). Gall digwyddiadau hyfforddiant ar ffurf cyfarfodydd ffug fod yn ddefnyddiol i rai aelodau newydd yn dilyn etholiadau llywodraeth leol y flwyddyn nesaf, yn ogystal â chael digwyddiadau hyfforddi yn y bore, y prynhawn a gyda'r nos;
- yr angen i bob aelod ddarllen adroddiadau a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd;
- yr angen i Gadeiryddion baratoi ar gyfer cyfarfodydd, bod yn strategol ac yn effeithiol yn eu rôl fel Cadeirydd yn ogystal â dangos arweiniad pan fo angen (ymatal rhag gofyn gormod o gwestiynau gan y Cadeirydd);
- pennu cyfres glir o nodau ar gyfer archwilio;
- cydweithio â'r Cabinet i godi proffil Archwilio o fewn trefniadau llywodraethu'r Cyngor;
- cyfarfodydd rheolaidd rhwng SCVCG a'r Cabinet / Aelodau Arweiniol;
- defnydd gwell a mwy o ddefnydd o adroddiadau rheoleiddwyr allanol
- monitro'r canlyniadau a deilliannau'r broses archwilio i sicrhau gwelliant parhaus a chyflawni amcanion y Cyngor;
- rhoi mwy o gyfrifoldeb i aelodau archwilio unigol am feysydd penodol, yn debyg i'r cyfrifoldeb Herio Gwasanaethau (yn gofyn iddynt archwilio materion penodol ac adrodd yn ôl i'w pwyllgor);
- cyfarfodydd ymlaen llaw / sesiynau briffio i'w trefnu ar gyfer pwyllgorau cyfan cyn cyfarfodydd archwilio penodol, i sicrhau bod pob aelod yn deall y pwnc a'r materion h.y. cyn cyfarfod galw i mewn;
- mwy o ddefnydd o Grwpiau Tasg a Gorffen, tystion arbenigol a chyfranogiad y cyhoedd gyda Grwpiau Tasg a Gorffen;
- dylai materion a godwyd mewn cyfarfodydd Herio Gwasanaeth ymddangos ar raglenni archwilio; a
- gwella ymgysylltiad y cyhoedd â phreswylwyr a chymunedau trwy gydweithio agosach rhwng Cynghorau Tref a Chymuned ac Archwilio, a thrwy Archwilio’n cyhoeddi datganiadau i'r wasg / negeseuon rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol.

4.7 O ystyried canfyddiadau hunanwerthuso archwilio, gofynnir i'r Cyngor benderfynu pa feysydd ar gyfer gwella y dylai archwilio yn Sir Ddinbych ganolbwyntio arnynt ar gyfer gweddill tymor y Cyngor hwn, ac yn barod ar gyfer y Cyngor newydd ym mis Mai 2017. Bydd meysydd a awgrymir gan aelodau yn y cyfarfod yn cael eu hystyried gan yr SCVCG i'w hymgorffori o bosibl yng Nghynllun Gweithredu ar Wella Archwilio (Atodiad 1).

**5. Ffurflenni Cynnig ar gyfer Archwilio**

Ynghlwm wrth yr adroddiad hwn er gwybodaeth mae Ffurflenni Cynnig ar gyfer Archwilio:

| | |
|---|---|
| Atodiad 3: | Ffurflen Cynnig Aelodau |
| Atodiad 4: | Ffurflen Cynnig ar gyfer Archwilio ar gyfer preswylwyr / aelodau o'r cyhoedd (fersiwn dwyieithog) |

Bydd cyflwyniad yn cael ei roi yn y cyfarfod i gyd-fynd â'r drafodaeth ar yr adroddiad hwn. Cyfeirir yn ystod y cyflwyniad i'r ffurflenni uchod, a'u defnydd.

**6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd archwilio effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau, dymuniadau preswylwyr ac o fewn cyllideb.

**7. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol yn codi o gynnwys mesurau gwella yn y cynllun gweithredu. Telir unrhyw gostau mewn perthynas â gweithredu'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu o fewn y cyllidebau presennol.

**8. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho'r adroddiad Asesiad Effaith ar Les o'r wefan a dylid ei atodi fel atodiad i'r adroddiad**

Mae Asesiad Effaith ar Les wedi cael ei wneud ar y manteision o gryfhau swyddogaeth archwilio'r Cyngor. Daeth i'r casgliad y bydd swyddogaeth archwilio gref ac effeithiol, fel rhan annatod o'i gwaith, yn ystyried effaith polisïau, strategaethau a darparu gwasanaethau ar y nodau Lles a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

**9. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Roedd y cyflwyniad o'r adroddiad hwn i'r Cyngor Sir yn ffurfio rhan o'r broses ymgynghori ar wella archwilio yn barhaus yn Sir Ddinbych.

**10. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd y gweithgareddau a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn cael eu cyflwyno gan ddefnyddio staff presennol ac adnoddau ariannol.

**11. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae adolygu yn rheolaidd a monitro arferion archwilio a'r Cynllun Gwella Archwilio'n lliniaru yn erbyn y risg o adroddiadau rheoleiddiol andwyol.

**12. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 4.11.9 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi y gall Cyngor Sir ystyried adroddiadau gan Bwyllgorau Archwilio'r Cyngor.

**Swyddog Cyswllt:**
Cydlynydd Archwilio
Ffôn: 01824 712554
e-bost: rhian.evans@denbighshire.gov.uk